Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: monitro gan Estyn

# Talley C.P School

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Meinir Howells | Arolygydd Cofnodol |
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Tîm |
| Catrin Griffiths | Cynrychiolydd awdurdod lleol |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gynradd Talyllychau wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd mis Hydref 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd Ysgol Talyllychau yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â'r ysgol ymhen tua 12 mis i arolygu cynnydd yn ôl yr argymhellion.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Sicrhau mwy o gynnydd mewn gwaith ysgrifenedig yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae safonau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg disgyblion wedi gwella. Mae safonau a chywirdeb gwaith ysgrifennu llawer o'r disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn dda.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn llunio darnau i wahanol bwrpasau sy'n cynnwys dilyniant o frawddegau ac yn gwneud defnydd priodol o atalnodi sylfaenol.

Bu cynnydd amlwg yng ngallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i ysgrifennu'n fwy estynedig yn y ddwy iaith ac i wahanol bwrpasau. Mae canlyniadau Cymraeg a Saesneg eleni yn dangos cynnydd da o ran y lefel ddisgwyliedig. Fodd bynnag, nid oedd perfformiadau disgyblion yn y ddwy iaith, yn y ddwy flynedd diwethaf, cystal o ran cyrraedd y lefelau uwch.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n estynedig mewn modd trefnus ac yn y cywair priodol mewn storïau, darnau ffeithiol a darnau dwyn perswâd yn y ddwy iaith. Mae gallu llawer o ddisgyblion i ddrafftio yn datblygu'n dda. Serch hyn, mae safon llawysgrifen yn ogystal â chyflwyniad gwaith yn amrywio gormod ac, ar adegau, yn anniben.

Mae gweithdrefnau addas gan yr ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, gyda llawer o'r disgyblion yn cyrraedd y targedau sydd wedi gosod ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw targedau ar gyfer ysgrifennu yn y ddwy iaith bob amser yn ddigon penodol a heriol.

**Argymhelliad 2: Gwella'r ymateb i waith ysgrifenedig disgyblion er mwyn rhoi arweiniad penodol ar sut i wella eu gwaith**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gwaith ysgrifenedig y disgyblion bellach yn cael ei farcio'n rheolaidd ac mae'r sylwadau yn adeiladol ac yn nodi'r hyn sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella ansawdd a chywirdeb y gwaith. Erbyn hyn, mae mwy o gysondeb yn ansawdd marcio athrawon rhwng y ddau ddosbarth. Mae'r ysgol wedi adolygu'r polisi marcio ac mae gan ddisgyblion well ddealltwriaeth o'r symbolau marcio sy'n cael eu defnyddio gan athrawon. Mae athrawon yn cyflwyno bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant yn glir ar gyfer tasgau ysgrifennu ac maent yn asesu'r hyn y mae disgyblion wedi'i gyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn llwyddiannus. Erbyn hyn, mae disgyblion yn dod i ddeall yn fwy clir disgwyliadau'r athrawon a sut i lwyddo yn y tasgau.

Mae athrawon yn defnyddio 'dwy seren a dymuniad' yn rheolaidd wrth farcio ac mae'r rhain yn bwydo i dargedau unigol disgyblion yn briodol. Er bod gan yr ysgol dargedau unigol i bob disgybl, nid yw rhain bob amser yn ddigon penodol. Mae disgyblion hefyd yn dechrau gosod eu targedau eu hunain. Mae gan y disgyblion hynaf yng nghyfnod allweddol 2 syniad clir o'u cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r ysgol yn briodol yn rhannu'r targedau ar gyfer disgyblion unigol gyda'r rhieni.

Mae athrawon yn rhoi cyfle i'r disgyblion ymateb i'w sylwadau ysgrifenedig ynghylch sut y gallant wella'u gwaith. Serch hynny, mae angen i ddisgyblion i barhau i ymateb i sylwadau athrawon ynglŷn â sut i wella eu gwaith. Yn ddiweddar iawn, mae'r disgyblion wedi dechrau defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu i'w helpu i asesu eu cynnydd eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

**Argymhelliad 3: Sicrhau fod yr ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys yng nghyfnod allweddol 2**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae gweithgareddau yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig profiadau dysgu amrywiol sydd yn ennyn diddordeb llawer o'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn ddigon manwl bob amser er mwyn ysgogi a diwallu anghenion ystod oedran a gallu'r holl ddisgyblion y dosbarth, ac i sicrhau ystod lawn o brofiadau dysgu.

Mae'r ysgol wedi cydweithio gyda clwstwr o ysgolion er mwyn datblygu cynlluniau tymor byr sydd yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau tymor byr yr ysgol yn ddigon manwl er mwyn sicrhau bod y medrau hyn, yn ogystal a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion yn cael eu cymhwyso'n gydlynus ar draws yr holl bynciau. Mae athrawon wedi cychwyn arfarnu llwyddiant y gweithgareddau a ddarperir ynghyd ag ansawdd eu haddysgu eu hunain. Serch hyn, nid yw'r arfarniadau'n ddigon minog i alluogi'r athrawon i gynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion yn y medrau.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer gwyddoniaeth wedi gwella ers yr arolygiad ac mae disgyblion bellach yn derbyn profiadau cyfoethog wrth gynnal ymchwiliadau. Mae llawer ohonynt yn rhagfynegi canlyniadau’n ddeallus ac yn cynnig esboniadau aeddfed wrth ddarganfod canlyniadau annisgwyl.

Yn ddiweddar, mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu dysgwyr annibynnol. Mae hyn yn galluogi mwyafrif y disgyblion i wneud penderfyniadau a chymryd peth perchnogaeth dros eu dysgu.

Nid oes gan yr ysgol systemau monitro digon cadarn er mwyn sicrhau bod y profiadau dysgu a ddarperir yng nghyfnod allweddol 2 yn cwmpasu ystod ofynnol y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn. Mae angen i'r ysgol fonitro’r cynllunio yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys pob agwedd. Nid yw’r cynlluniau tymor hir yn cynnig digon o arweiniad er mwyn sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn adeiladu ar wybodaeth bynciol flaenorol a datblygu eu medrau yn effeithiol yn yr holl bynciau.

**Argymhelliad 4: Defnyddio asesiadau yn fwy cyson ac yn fwy effeithiol i dracio cyflawniad a chynnydd disgyblion**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae gan yr ysgol bortffolios dysgwyr a phortffolios ysgol a chlwstwr defnyddiol ar gyfer Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, nid yw rhain yn cael eu defnyddio digon gan yr ysgol fel esiamplau da ar gyfer gwella safonau disgyblion. Mae cymedroli fesul clwstwr a hyfforddiant gan yr awdurdod lleol wedi galluogi’r athrawon i lefelu gwaith yn fwy effeithiol. Mae asesiadau 2013 yn cadarnhau hyn.

Mae’r system dracio electronig yn galluogi’r ysgol i adnabod cyrhaeddiad grwpiau ac unigolion penodol o ddisgyblion, yn cynnwys bechgyn a merched, disgyblion â’r hawl i ginio yn rhad ac yn ddim, anghenion dysgu ychwanegol a phlant mewn gofal. Serch hynny, nid yw’r gweithdrefnau hyn wedi gwreiddio i sicrhau bod ymyrraeth effeithiol i dargedu tangyflawniad.

**Argymhelliad 5: Cryfhau'r gweithdrefnau arweinyddiaeth strategol er mwyn sicrhau ffocws ar godi safonau**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i’r ysgol ac mae’r cadeirydd wedi defnyddio ystod o weithgareddau priodol er mwyn adnabod cryfderau’r ysgol yn ogystal â’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae hyn yn cynnwys ymwelidau cyson i’r ysgol, craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi. Yn sgil hyn, y mae’n cynnig her briodol i’r pennaeth wrth ystyried perfformiad disgyblion ac ansawdd y dysgu a’r addysgu.

Fodd bynnag, nid yw gallu’r holl llywodraethwyr i gyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol wedi datblygu’n ddigon da. Er bod y pennaeth yn cyflwyno gwybodaeth ar ddata cyrhaeddiad y disgyblion i’r llywodraethywr, nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o’r data i herio’r ysgol mewn perthynas ag agweddau ar danberfformiad, yn enwedig o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant wedi cryfhau ers yr arolygiad. Serch hyn, nid yw systemau'r ysgol yn ddigon trylwyr ac nid ydynt yn cynnwys mewnbwn gan holl randdeiliaid yr ysgol. Nid yw arfarniadau'r ysgol yn ffocysu digon ar y camau a gymerwyd a'u heffaith ar y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod y llywodraethwyr yn gyfarwydd ag adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol ond nid yw'r llywodraethwyr yn chwarae rhan ddigon gweithredol o ran pennu cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn adnabod nodweddion da'r ysgol ond nid yw'n cynnig trosolwg digon beirniadol.

Nid yw gweithdrefnau arweinyddiaeth yr ysgol yn canolbwyntio digon ar godi safonau ac ni chaiff deilliannau eu dadansoddi yn ddigon manwl er mwyn llunio strategaethau ar gyfer gwelliant. Er bod cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys targedau unigol ar gyfer pob blaenoriaeth, nid ydynt yn ddigon mesuradwy ac nid ydynt yn cynnwys ystyriaethau ariannol ddigon manwl nac amseroedd adolygu penodol. O ganlyniad, nid yw'n hawdd i'r llywodraethwyr adolygu'r cynnydd.